# Cynllun marcio Uned 1

| Marc | AA1 – Gwrando |
|---|---|
| 25 – 30<br>**Band 5** | • Gwrando ac ymateb gyda chyfraniadau perthnasol<br>• Deall mewn manylder gwahanol fathau o iaith lafar o'r sbardun gweledol a siaredir gan fwy nag un o'r siaradwyr<br>• Deall yn llawn y brif neges a manylion penodol sy'n cael eu cyfathrebu ar lafar<br>• Ymateb yn llawn i wahanol fathau o iaith lafar gan un neu'n fwy o siaradwyr |
| 19 – 24<br>**Band 4** | • Gwrando ac ymateb gyda chyfraniadau perthnasol<br>• Deall mewn peth manylder gwahanol fathau o iaith lafar o'r sbardun gweledol a siaredir gan fwy nag un o'r siaradwyr<br>• Deall yn weddol lawn y brif neges a manylion penodol sy'n cael eu cyfathrebu ar lafar<br>• Ymateb yn weddol lawn i wahanol fathau o iaith lafar gan un neu'n fwy o siaradwyr |
| 13 – 18<br>**Band 3** | • Gwrando ac ymateb gyda chyfraniadau perthnasol<br>• Deall gwahanol fathau o iaith lafar o'r sbardun gweledol a siaredir gan fwy nag un o'r siaradwyr<br>• Deall y brif neges a manylion penodol sy'n cael eu cyfathrebu ar lafar<br>• Ymateb yn syml i wahanol fathau o iaith lafar gan un neu'n fwy o siaradwyr |
| 7 – 12<br>**Band 2** | • Gwrando ar eraill ac ymateb gyda rhai cyfraniadau<br>• Deall ychydig o wahanol fathau o iaith lafar o'r sbardun gweledol a siaredir gan fwy nag un o'r siaradwyr<br>• Deall y rhan fwyaf o'r brif neges a'r mwyafrif o'r manylion penodol sy'n cael eu cyfathrebu ar lafar<br>• Ymateb yn syml iawn i wahanol fathau o iaith lafar gan un neu'n fwy o siaradwyr |
| 1 – 6<br>**Band 1** | • Gwrando ar eraill gan wneud ymdrech i ymateb gydag ambell gyfraniad<br>• Deall ychydig iawn o wahanol fathau o iaith lafar o'r sbardun gweledol a siaredir gan fwy nag un o'r siaradwyr<br>• Deall ychydig o'r brif neges a pheth manylion penodol sy'n cael eu cyfathrebu ar lafar<br>• Ymdrech i ymateb i wahanol fathau o iaith lafar gan un neu'n fwy o siaradwyr |
| 0 | • - Amhriodol neu heb ymateb |

| Marc | AA2 – Siarad |
|---|---|
| 17 – 20<br>**Band 5** | • Cyfathrebu a rhyngweithio'n hyderus ac yn ddigymell gan gyfleu gwybodaeth o'r sbardun gweledol, mynegi a chyfiawnhau barn yn llawn<br>• Defnyddio ystod eang o strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs a thrafodaeth yn hynod o lwyddiannus gan sicrhau cyfraniadau cyson<br>• Defnyddio ystod eang o batrymau iaith yn gywir a defnyddio ystod o wahanol amserau'r ferf<br>• Defnyddio cywair priodol, ynganu'n gywir a goslefu'n addas |
| 13 – 16<br>**Band 4** | • Cyfathrebu a rhyngweithio'n hyderus ac yn ddigymell gan gyfleu gwybodaeth o'r sbardun gweledol, mynegi a chyfiawnhau barn yn llawn<br>• Defnyddio ystod o strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs a thrafodaeth yn llwyddiannus gan sicrhau cyfraniadau cyson<br>• Defnyddio ystod o batrymau iaith yn gywir a defnyddio gwahanol amserau'r ferf<br>• Defnyddio cywair priodol, ynganu gywir a goslefu'n addas |
| 9 – 12<br>**Band 3** | • Cyfathrebu a rhyngweithio gyda pheth hyder ac ychydig o anogaeth gan gyfleu gwybodaeth o'r sbardun gweledol, mynegi a chyfiawnhau barn yn eitha llawn<br>• Defnyddio strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs a thrafodaeth gan wneud cyfraniadau<br>• Defnyddio patrymau iaith yn gywir ac yn amrywio peth ar amser y ferf<br>• Defnyddio cywair priodol, ynganu eitha cywir a goslefu'n addas |
| 5 – 8<br>**Band 2** | • Cyfathrebu a rhyngweithio gydag ychydig o anogaeth gan gyfleu peth gwybodaeth o'r sbardun gweledol, mynegi a chyfiawnhau peth barn<br>• Defnyddio rhai strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs a thrafodaeth gan wneud rhai cyfraniadau<br>• Defnyddio patrymau iaith syml yn gywir ac amrywio ambell amser y ferf<br>• Ynganu'r mwyafrif o'r geiriau'n gywir |
| 1 – 4<br>**Band 1** | • Ymateb i anogaeth uniongyrchol drwy roi ambell ddarn o wybodaeth o'r gweledol a mynegi ambell farn<br>• Defnyddio ambell strategaeth i gefnogi a chynnal sgwrs gan wneud ambell gyfraniad<br>• Defnyddio ambell batrwm iaith syml yn weddol gywir<br>• Ynganu'r mwyafrif o'r geiriau'n weddol gywir |
| 0 | • Amhriodol neu heb ymateb. Nid yw'r wybodaeth ofynnol yn cael ei chyfathrebu o gwbl |